

# Ysgol Maes y Gwendraeth

## Polisi Gwrth Fwlio



Mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu a chymeradwyo'r Polisi Gwrth Fwlio er mwyn bodloni gofynion Deddf Diogelu Data, 1998.

Caiff y polisi hwn ei adolygu'n flynyddol a'i ddiwygio pan fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud naill ai gan yr ysgol neu'r Awdurdod Lleol.

Crëwyd: Gorffennaf 15<sup>fed</sup>, 2016

Diwygiwyd: Gorffennaf 19<sup>eg</sup>, 2017

## Amcanion yr Ysgol

- Darparu'r gefnogaeth a'r arweiniad angenrheidiol er mwyn hyrwyddo cyfraniad disgyblion yn y dysgu a'r addysgu hyd eithaf eu gallu.
- Galluogi pob disgybl i gyflawni ei wir botensial yn academiaidd, yn ymarferol ac yn gymdeithasol, ac i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu meddyliau bywiog ac ymholgar.
- Galluogi pob plentyn i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Meithrin balchder yn y Gymraeg a'i diwylliant, tra hefyd yn gwerthfawrogi diwylliannau eraill a meithrin parch tuag at leiafrifoedd o fewn eu cymunedau.
- Creu o fewn yr ysgol cymuned sy'n sensitif i werthoedd ysbrydol, corfforol, moesol a dyngarol.
- Sicrhau cyfle digonol o fewn cymuned yr ysgol i ddatblygu hunan fynegiant, gwasanaeth, ffyddlondeb, arweiniad a hunanhyder ac i annog hunan-barch a pharch tuag at eraill.
- Paratoi'r disgyblion ar gyfer bywydau llawn a digonol ar ôl gadael yr ysgol ac i wasanaethu eu cymunedau yn oedolion cyfrifol, dwyieithog.

## Rhagarweiniad

Yn ogystal ag effeithio ar y dioddefwr a'r bwli ei hun, mae achos o fwlio yn effeithio ar bawb, gan gynnwys y disgyblion hynny sy'n dystion iddo ac yn gweld yr hyn sy'n digwydd. Nid yw bwlio yn rhan anorfod o fywyd ysgol nac yn rhan angenrheidiol o dyfu'n oedolyn. Mae bwlian yn annerbyniol, pe bai'n gorfforol, geiriol, rhywiol, seicolegol, ar-lein, homoffobig, hiliol neu ar sail rhyw. Ni ddylai unigolyn na grŵp o ddisgyblion orfod dioddef y math hwn o ymddygiad yn eu herbyn, a rhaid datrys pob achos cyn y medr disgybl fanteisio'n llawn ar y cyfleodd addysgol a gynigir gan yr ysgol.

Rydym ni yn Ysgol Maes y Gwendraeth yn credu bod gan bob person ifanc yr hawl i gael ei drin â pharch a dealltwriaeth. Dylai hefyd allu ymgymryd ag unrhyw weithgaredd heb ofni cael ei boenydio. Mae ymddygiad sy'n tanseilio'r egwyddorion hyn yn gwbl annerbyniol. Mae'r ysgol yn ymrwymedig i roi proffil uchel i ymgyrchu yn erbyn bwlio a hyrwyddo agweddau cymdeithasol iach. Mae gan bob disgybl, ffrind neu riant hawl i rannu pryderon; ac mae dyletswydd ar bob athro i wrando a gweithredu. Mae gweithdrefn glir wedi'i phennu ar gyfer delio ag achosion o fwlio sy'n hysbys i ddisgyblion, rhieni a staff.

## Beth yw bwlio?

Bwlio yw'r awydd bwriadol ac ymwybodol i niweidio, bygwth neu godi ofn ar rywun drwy air neu weithred. Gall unrhyw un gael ei dargedu gan fwli a gall hyn fod am amrywiaeth o resymau fel rhyw, hil, gogwydd rhywiol, crefydd, oedran ac anabled. Mae merched a bechgyn o bob oed yn gallu bod yn euog o fwlio. Os yw plentyn yn anhapus, neu'n cael ei fygwth neu ei fwlio, rydym yn awyddus iawn i wneud popeth o fewn ein gallu i ddatrys y sefyllfa.

- **Emosiynol**

Gellir bwlio plentyn trwy fod yn anghyfeillgar, difrodi neu ddwyn eiddo neu yn syml drwy ei 'gau allan' o sgysiau neu weithgareddau - yn aml gan y rheiny a ystyrir yn 'ffrindiau'.

- **Corfforol**

Lle y mae plentyn yn cael ei wthio, ei daro, ei gicio neu trwy ddefnyddio unrhyw fath o drais.

- **Geiriol**

Lle y mae plentyn yn galw enwau, hel clecs, gwneud hwyl ar ben rhywun neu pryfocio eraill.

- **Seibr Fwlio**

Ble mae disgybl yn cael ei boeni ar-lein trwy ddefnydd o negeseuon maleisus, gwefannau cymdeithasol e.e. Facebook. Danfon e-byst neu negeseuon tecst anaddas; neu danfon lluniau annerbyniol neu greulon trwy'r we.

- **Homoffobig**

Bwlio wedi'i ysgogi gan ragfarn yn erbyn pobl lesbaidd, hoyw a deurywiol neu'r rheiny y canfyddir eu bod yn lesbaidd, hoyw a deurywiol.

- **Anabledd**

Bwlio yn ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau.

*Beth yw arwyddion bwlio? (gall rhain fod yn arwyddion posib o faterion consyrn eraill)*

- Amharodrwydd i fynd i'r ysgol.
- Ymddangos yn ofnus o'r daith i'r ysgol ac oddi yno.
- Safon y gwaith yn dirywio ac yn tangyflawni.
- Cwyno o salwch fel bola tost a phen tost.
- Cael hunllefau neu anawsterau cysgu.
- Dod adref yn rheolaidd gydag eiddo coll neu wedi'i ddifrodi.
- Cyrraedd adref yn llwglyd.
- Gofyn am arian ychwanegol neu ddwyn arian.
- Dechrau triwanta.
- Iselder ysbryd, bod yn bwdlyd neu bod mewn tymer ddrwg.
- Ymosodol ac yn bwlio eraill.
- Anafiadau corfforol, megis cleisiau na ellir eu hesbonio.

## Canllawiau'r Ysgol

### Beth i'w wneud os cewch eich bwlio:

- Os ydych yn cael eich bwlian, mae'n rhaid i chi ddweud wrth rywun yn **syth** e.e. rhiant, tiwtor dosbarth, Pennaeth Blwyddyn, Pennaeth Bugeiliol neu unrhyw athro yr ydych yn gallu ymddiried ynddo. Fe fydd yr ysgol yn ystyried eich pryderon o ddifrif.
- Mae'n bwysig i chi ddweud wrth eich ffrindiau a gofyn iddynt am eu cefnogaeth. Arhoswch gyda grŵp o ffrindiau er mwyn i chi deimlo'n fwy diogel.
- Dywedwch wrthyf chi'ch hun fod bwlio yn anghywir, ac nad ydych yn haeddu nac yn gorfod dioddef cael eich bwlian.

- Ceisiwch beidio a dangos fod y bwlio yn cael effaith arnoch. Mae'r bwli yn hoffi gweld pobl yn ei ofni.
- Gall ymladd yn ôl wneud pethau'n waeth. Siaradwch ag athro/athrawes neu riant neu ffrind hŷn yn gyntaf.

### Os ydych chi'n adnabod rhywun sy'n cael ei fwlio:

- Gwnewch rywbeth! Mae edrych a gwneud dim yn ffordd o gefnogi'r bwli.
- Os na fedrwyd chi'n bersonol wneud dim, dywedwch wrth oedolyn yn syth. Mae gan athrawon ffyrdd o ddelio â bwli heb eich cael chi i mewn i drwbl.
- Peidiwch â bod yn ffrindiau gyda bwli (na hyd yn oed esgus bod yn ffrindiau).

### I'r rhieni:

- Byddwch yn wylidwrus am ymddygiad anarferol gan eich plentyn e.e. dymuniad sydyn i beidio a mynd i'r ysgol, teimlo'n sâl yn gyson - 'bola tost' neu fod dirywiad yn safon ei waith ysgol.
- Cymerwch ran weithredol yn addysg eich plentyn. Gofynnwch sut aeth pethau yn ystod y dydd/yn ystod y gwersi, gyda phwy y treuliodd amser egwyl neu ginio.
- Os credwch fod eich plentyn yn dioddef, dywedwch wrth yr ysgol yn syth. Ystyrir eich sylwadau yn ddifrifol ac fe weithredir ar eich cwyn. Sicrhewch y plentyn mai gofyn am help gan yr ysgol yw'r unig ffordd i wella'r mater.
- Mae rhai rhieni yn cynghori eu plentyn i fwrw'r bwli yn ôl. Er y byddai rhai yn dadlau o blaid yr ymateb hwn ar sail effeithiolrwydd, ni all yr ysgol ei gymeradwyo fel strategaeth dderbyniol. Mewn gwirionedd, gallai amgylchiadau godi lle y byddai'n rhaid i'r ysgol gosbi'r rheiny sydd wedi penderfynu gweinyddu eu cyfiawnder eu hunain.
- Os nad ydych yn hapus gyda'r camau a gymerwyd, rhannwch eich pryderon a gofynnwch am apwyntiad gyda'r Pennaeth Bugeiliol. Gyda'n gilydd mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffordd ymlaen. Ymrwymwn yn gydwybodol i'r cyfrifoldeb o weithio gyda chi i sicrhau bod eich plentyn yn hapus yn Ysgol Maes y Gwendraeth.

### Mae'r ysgol yn:

- trefnu ei chymuned i leihau'r cyfle i fwlio e.e. darparu goruchwyliaeth gan staff adeg egwyl a chinio a chadw llygad yn ystod y gwersi am ymddygiad annheg, geiriau cas neu weithredoedd treisgar.
- defnyddio pob cyfle i drafod agweddau ac effeithiau bwlio e.e. yn ystod gwersi ABCh a gwasanaethau.
- delio yn gyflym, yn effeithiol ac yn deg a phob cwyn, gan gynnwys siarad â rhieni. Bydd yr ysgol yn ystyried eich pryderon o ddifrif.
- adolygu'r Polisi a'i lwyddiant yn gyson.
- annog pawb i drin eraill a pharch.
- ystyried pob cwyn am fwlio yn ddifrifol, gan ymchwilio i bob cwyn a chymryd camau i ddileu bwlio.

## Canllawiau Disgyblu

Pan wneir cwyn am achos o fwlio, neu pan fydd athro neu athrawes yn sylwi ar achos o fwlio, bydd yr ysgol yn siarad â'r person sy'n cael ei fwlio, y bwli ac unrhyw dystion i'r digwyddiad(au).

Cefnogwn y person sy'n cael ei fwlio drwy:

- gynnig cyfle'n syth iddo siarad am y profiad gydag aelod o'r Tîm Bugeiliol.
- drafod y mater gyda rhieni/gwarcheidwaid y dioddefwr.
- roi cyngor a chynnig cefnogaeth amrywiol asiantaethau allanol, os oes angen.
- drefnu'n briodol er mwyn helpu'r sefyllfa e.e. gofalaeth yn ystod amser egwyl neu ginio; hebrwng rhwng gwersi a hebrwng o'r safle ar ddiwedd y dydd.
- ymateb drwy ddefnyddio un neu fwy o'r Camau Disgyblu.

### Camau Disgyblu:

(Pwysig nodi fod **pob** sefyllfa yn unigryw, ac felly, gellir symud yn syth i gam yn uwch yn dibynnu ar ddifrifoldeb y sefyllfa. Ym mhob sefyllfa, fe fydd yr ysgol yn cadw cyswllt cyson gyda chartref y dioddefwr.)

- CAM 1: Cynnal cyfarfod rhwng y dioddefwr, y bwli ac unrhyw dystion a hynny o dan amodau 'dim bai'. Gosod camau a chanllawiau clir a phendant i'w dilyn.
- CAM 2: Monitro'r sefyllfa yn ofalus e.e. monitro camau CAM 1; cadw goruchwyliaeth adeg amseroedd egwyl a chinio; siarad gyda'r bwli / dioddefwr.
- CAM 3: Os nad oes unrhyw newid yn agwedd y bwli, rhoi'r bwli ar Adroddiad Dyddiol i fonitro'i ymddygiad. Hysbysu cartref y bwli.
- CAM 4: Os na ddaw'r bwlio i ben, bydd y bwli yn wynebu Ataliad neu Waharddiad o'r ysgol am gyfnod byr, penodol.
- CAM 5: Gwahodd rhieni'r bwli i'r ysgol er mwyn trafod y mater a'r ffordd ymlaen. Mewn rhai amgylchiadau, gwahoddir y cownseilydd ysgol / Heddwes Cymunedol / gweithiwr ieuenctid i fod yn bresennol.
- CAM 6: Os bydd yn parhau i fwlio, fe'i gwaherddir o'r ysgol am gyfnod.
- CAM 7: Os parheir i fwlio, argymhellir bod y drwgweithredwr yn cael ei wahardd o'r ysgol yn barhaol.

Cedwir cofnodion manwl a chywir o'r camau uchod.

## Gwefannau Defnyddiol

- [www.bullying.co.uk](http://www.bullying.co.uk)
- [www.kidscape.org.uk](http://www.kidscape.org.uk)
- [www.parentlineplus.org.uk](http://www.parentlineplus.org.uk)
- [www.snapcymru.org](http://www.snapcymru.org)
- [www.wales.gov.uk/respectingothers](http://www.wales.gov.uk/respectingothers)
- [www.antibullying.net](http://www.antibullying.net)
- [www.childline.org.uk](http://www.childline.org.uk)